# Prosiect Maen Hir

## Ffurflen Adborth ar gyfer yr Ymgynghoriad

**02 HYDREF TAN 15 TACHWEDD 2024**

## Mae Lightsource bp yn datblygu prosiect solar a storio ynni newydd ar dir yng ngogledd Ynys Môn.

Gallai prosiect Maen Hir gynhyrchu 360 MegaWat (MW) o drydan – digon o ynni glân i bweru tua 140,000 o gartrefi ac osgoi tros 71,000 tunnell o $CO_2$ pob blwyddyn.

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan yn ein hymgynghoriad o 02 Hydref tan 15 Tachwedd 2024. Mae'r cam ffurfiol yma o'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008.

**Mae eich adborth yn bwysig i ni**

Byddwn yn adolygu ein cynigion yng ngoleuni barn a sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â'r canfyddiadau o'n hasesiad amgylcheddol parhaus, er mwyn inni fedru cwblhau a chyflwyno ein cais am gydsyniad datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS).

**Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adborth i'r ymgynghoriad yma yw 23:59 ar ddydd Gwener 15 Tachwedd 2024.**

## Darparu eich adborth

**Fe'ch gwahoddir i ddefnyddio'r ffurflen adborth hon i ymateb i'n hymgynghoriad. Cwblhewch gymaint o adrannau o'r ffurflen adborth hon ag yr hoffech a'i dychwelyd atom gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau a restrir isod:**

- **Yn bersonol:** drwy ei chyflwyno i aelod o dîm y Prosiect neu drwy ei rhoi yn y blwch adborth mewn digwyddiad ymgynghori.
- **Drwy'r post:** postiwch hi atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad **FREEPOST MAEN HIR PROJECT.** Nid oes angen stamp arnoch.
- **E-bost:** sganiwch gopi o'r ffurflen wedi ei chwblhau a'i e-bostio atom i: **maenhir@lightsourcebp.com**
- **Ar-lein:** cwblhewch y fersiwn ar-lein o'r ffurflen hon sydd ar gael ar wefan ein Prosiect: lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg.

**Os oes angen mwy o le arnoch i ateb unrhyw un o'r cwestiynau, parhewch ar ddarn arall o bapur a'i atodi i'r ffurflen hon. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod yn dychwelyd y ffurflen yn ei ffurf lawn hyd yn oed os nad ydych yn ymateb i bob un o'r cwestiynau.**

## Cysylltu

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gymorth i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â thîm y prosiect ar:**

**RHADFFÔN:** 08081 756 663 - **Cymraeg** neu 08081 756 375 - **Saesneg**

(Llinellau ar agor Llun-Gwe 09.00-17.00)

**E-BOST:** **maenhir@lightsourcebp.com**

**GWEFAN:** **lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg**, neu sganiwch y cod QR

# Ble mae canfod rhagor o wybodaeth?

**Rydym wedi paratoi cyfres o ddogfennau i egluro'r cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt ac i'ch cynorthwyo i ddarparu adborth.**

Awgrymwn eich bod yn adolygu'r dogfennau yma i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon:

- Llyfryn Gwybodaeth am y Prosiect
- Llyfryn Llywio Dogfen

Mae dogfennau technegol mwy manwl ar gael hefyd:

- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) – sydd yn nodi'r canfyddiadau cychwynnol o'r asesiadau amgylcheddol yr ydym wedi'u cynnal i oleuo datblygiad y cynigion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Mae'n nodi'r beth rydym yn ei gredu ar hyn o bryd fydd effeithiau amgylcheddol arwyddocaol Prosiect Maen Hir ac yn darparu gwybodaeth ar sut rydym yn bwriadu osgoi neu leihau'r effeithiau hynny lle bo hynny'n ymarferol.
- Crynhoad Annhechnegol (CA) o'r PEIR – sydd yn darparu trosolwg o'r wybodaeth a'r canfyddiadau a nodir yn y PEIR.

Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho ar wefan ein prosiect, ynghyd â dogfennau ychwanegol gan gynnwys fersiwn ddrafft o'r Adroddiad ar Fanteision Cydweithio a'r Cynllun Amlinellol ar gyfer Rheoli Traffig Adeiladu, Cynllun Cychwynnol Cyflogaeth, Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi, ac Egwyddorion Dylunio.

**Cysylltwch â ni i wybod ble mae cael gafael ar gopïau wedi eu hargraffu (gweler y clawr am fanylion cyswllt.**

# Amdanoch chi

**Mae'n ddefnyddiol inni ddeall pwy sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, ac felly gofynnwn ichi ddarparu'r manylion canlynol.**

Nid oes raid ichi ddarparu eich manylion personol; fodd bynnag, bydd hyn yn ein helpu i weithio gyda'n gilydd tuag at ddiwallu anghenion y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen gefn y ffurflen hon am sut y byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol.

**Enw**

**Cyfeiriad**

**Cod Post**

**Cyfeiriad e-bost**

**Ydych chi'n ymateb ar ran unrhyw sefydliad?** ○ Ydw ○ Nac ydw

**Os 'ydw', rhowch enw'r sefydliad**

**Cadarnhewch, os gwelwch yn dda, fod gennych awdurdod i ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y sefydliad yma** ○ Oes ○ Nag oes

**Ystod oed**

○ Dan 18 ○ 18-34 ○ 35-54

○ 55-74 ○ 75 a hŷn ○ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Diweddariadau am y prosiect**

Os hoffech dderbyn diweddariadau am Brosiect Maen Hir, ticiwch un o'r blychau canlynol i nodi sut yr hoffech inni gysylltu â chi, a rhowch y wybodaeth berthnasol yn yr adrannau uchod (mae'n bosib y bydd angen inni gysylltu â chi yn unol â Deddf Cynllunio 2008 hyd yn oed os nad ydych yn rhoi tic yn y blychau canlynol).

○ Post

○ E-bost

# ADRAN 1: Cyffredinol

**C1. Fel egwyddor ydych chi'n cytuno bod yna angen am ynni solar?**

- ◯ Rydw i'n cytuno bod yna angen am ynni solar
- ◯ Nid wyf yn gwybod digon am yr angen am ynni solar i lunio barn
- ◯ Nid wyf yn cytuno bod yna angen am ynni solar

**C2. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad hwn, beth yw eich barn gyffredinol am ein cynigion ar gyfer Prosiect Maen Hir?**

- ◯ Cefnogol
- ◯ Cefnogol yn amodol ar newidiadau iddynt
- ◯ Angen gwybodaeth bellach i lunio barn
- ◯ Dim barn
- ◯ Nid wyf yn gefnogol

**C3. Pa agweddau o Brosiect Maen Hir sydd bwysicaf i chi?**

Yn y tabl isod, ticiwch y meysydd pwnc sydd bwysicaf ichi yr hoffech inni eu hystyried. Gallwch gyfeirio at y meysydd pwnc hyn wrth ymateb i Gwestiwn 5 (ticiwch bob un sy'n berthnasol).

- ◯ Ecoleg a Bioamrywiaeth
- ◯ Tirlun a Gweledol
- ◯ Treftadaeth
- ◯ Trafnidiaeth
- ◯ Sŵn
- ◯ Cyflwr y tir
- ◯ Amaethyddiaeth a Phriddoedd
- ◯ Adnoddau Dŵr
- ◯ Newid Hinsawdd
- ◯ Buddion Cymunedol
- ◯ Iechyd
- ◯ Asesiad Cynhwysol
- ◯ Pynciau eraill (nodwch os gwelwch yn dda e.e. Ansawdd Aer, Pefrio a Disgleirio, Gwastraff)

**C4: Nodwch unrhyw sylwadau cyffredinol sydd gennych ar ein cynigion ar gyfer Prosiect Maen Hir.**

Mae croeso ichi ehangu ar eich ateb i Gwestiwn 2 (eich barn gyffredinol am Brosiect Maen Hir) a Chwestiwn 3 (y meysydd hynny sydd bwysicaf ichi yr hoffech inni eu hystyried).

# ADRAN 2: Y datblygiad solar

## Uwchgynllun safle dangosol

**C5. Nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych ar yr uwchgynllun dangosol, gan gynnwys cynllun y safle, pwyntiau mynediad, parthau clustogi a mesurau lliniaru. Os yw eich sylwadau yn cyfeirio at ardal benodol o'r uwchgynllun, cyfeiriwch at y lleoliad (Gogledd Maen Hir, Canol Maen Hir, a De Maen Hir A a B).**

**C6. Ar sail uwchgynllun dangosol y safle, beth yw eich barn am ein cynnig i ddefnyddio safle'r hen ddepo olew fel:**

**a) Lleoliad ar gyfer y prosiect Solar Cymunedol.**

- ○ Cefnogol
- ○ Cefnogol yn amodol ar newidiadau iddynt
- ○ Angen gwybodaeth bellach i lunio barn
- ○ Dim barn
- ○ Nid wyf yn gefnogol

**b) Lleoliad ar gyfer offer Storio Ynni.**

- ○ Cefnogol
- ○ Cefnogol yn amodol ar newidiadau iddynt
- ○ Angen gwybodaeth bellach i lunio barn
- ○ Dim barn
- ○ Nid wyf yn gefnogol

Nodwch unrhyw sylwadau cyffredinol sydd gennych am ein cynigion i ddefnyddio safle'r hen ddepo olew.

**C7. Ar sail uwchgynllun dangosol y safle, nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych ar y potensial o ran llwybrau hamdden amlddefnydd newydd neu rai wedi eu gwella ar hyd hen Reilffordd Canolog Môn neu o amgylch Llyn Alaw.**

## Tirlun a golygfeydd

**C8. Dywedwch wrthym beth yw eich barn ar ein hasesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posib y gallai Prosiect Maen Hir ei gael ar y tirlun a golygfeydd, a'r mesurau yr ydym yn eu cynnig i liniaru'r effeithiau hynny.**

Am ragor o wybodaeth gweler Pennod 6 – Tirlun a Gweledol y PEIR.

## Ecoleg a bioamrywiaeth

**C9. Dywedwch wrthym beth yw eich barn ar ein hasesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posib y gallai Prosiect Maen Hir ei gael ar ecoleg a bioamrywiaeth, a'r mesurau yr ydym yn eu cynnig i liniaru'r effeithiau hynny.**

Am ragor o wybodaeth gweler Pennod 7 – Ecoleg y PEIR.

## Yr Amgylchedd

**C10. Dywedwch wrthym beth yw eich barn ar ein hasesiad rhagarweiniol o'r effeithiau posib y gallai Prosiect Maen Hir eu cael ar agweddau eraill o'r amgylchedd a'r mesurau yr ydym yn eu cynnig i liniaru'r effeithiau hynny.**

Am ragor o wybodaeth gweler y Crynodeb Annhechnegol yn y PEIR.

# ADRAN 3: Coridor llwybr y cebl

**C11. Dywedwch wrthym beth yw eich barn ar ein hasesiad rhagarweiniol o'r coridor ar gyfer llwybr y cebl, ble gellid lleoli ceblau tanddaearol i gysylltu'r paneli solar a'r storfa ynni gyda'r Is-orsafoedd 33kv/132kV arfaethedig, sydd yn cael eu cysylltu wedyn gydag Is-orsaf y Prosiect, ac yn olaf i is-orsaf newydd y mae National Grid Electricity Transmission plc yn ei hadeiladu.**

# ADRAN 4 : Adeiladu, gweithrediad a datgomisiynu

Bydd angen cynllunio gofalus ar gyfer adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect Maen Hir i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n lleihau effeithiau ar gymunedau lleol, yr amgylchedd a ffyrdd lleol.

**C12. Nodwch unrhyw sylwadau sydd gennych ar ein hasesiad rhagarweiniol o effeithiau posib Prosiect Maen Hir wrth adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, a'r mesurau yr ydym yn eu cynnig i liniaru'r effeithiau hynny.**

Am ragor o wybodaeth gweler y Crynodeb Annhechnegol yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR). Ceir gwybodaeth hefyd yn y Cynllun Rheoli Adeiladu Amlinellol drafft.

# ADRAN 5: Buddion cymunedol

**Mae Lightsource bp yn ymroi i weithio gyda chymunedau lleol i siapio a darparu pecyn o fuddion cymunedol a gaiff effaith gadarnhaol a pharhaol.**

**C13. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am sut y gallwn greu cyfleoedd, cefnogi mentrau cymunedol a darparu buddion ar gyfer y cymunedau hynny yng nghyffiniau Prosiect Maen Hir.**

Am ragor o wybodaeth gweler Pennod 16 – Agweddau economaidd-gymdeithasol y PEIR. Ceir gwybodaeth hefyd yn yr Adroddiad Buddion Cydweithredol drafft, ac yn yr Cynllun Cychwynnol Cyflogaeth, Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi.

# ADRAN 6: Sylwadau ychwanegol

**C14. Defnyddiwch y blwch isod i ddarparu unrhyw sylwadau pellach sydd gennych ar ein cynigion ar gyfer Prosiect Maen Hir.**

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Adroddiad Ymgynghori yn crynhoi'r holl faterion a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac esboniad o sut rydym wedi ystyried eich barn wrth gwblhau ein cynigion yn cael eu cynnwys yn y cais. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn amodol ar dderbyn ein cais i'w archwilio.

# Preifatrwydd Data

Caiff unrhyw fanylion personol eu cadw'n ddiogel a'u defnyddio dim ond i ddibenion mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad statudol, proses Deddf Cynllunio 2008 a datblygiad pellach Prosiect Maen Hir. Y tu allan i'r dibenion hyn mae'n bosib y bydd yn ofynnol i'r Ymgeisydd ddarparu manylion personol os gofynnir yn benodol amdanynt fel rhan o gais Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu os yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud cais am gopïau o'r ymatebion gwreiddiol.

Am ragor o fanylion gweler Hysbysiad Preifatrwydd yr Ymgeisydd: lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg

**Gellir gwneud cais am gopi caled o'r hysbysiad preifatrwydd drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.**

---

Os hoffech dderbyn y ddogfen hon mewn print bras neu mewn ffurf amgen, cysylltwch â ni ar 08081 756 663 - **Cymraeg** neu 08081 756 375 - **Saesneg** neu anfonwch e-bost atom i **maenhir@lightsourcebp.com.**